

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Ward Adferiad, Ysbyty Sant Cadog

Dyddiad y gweithgarwch: 7 Hydref 2020

Dyddiad cyhoeddi: 4 Tachwedd 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o ward Adferiad, Ysbyty Sant Cadog fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ar 07 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi darparu hyfforddiant a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19 i bob aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19, nac unrhyw glefydau heintus eraill, ymhlith y cleifion na'r staff ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, mae dau aelod o'r staff wedi cael canlyniad positif yn ddiweddar ac maent yn absennol o'r gwaith.

Dywedwyd wrthym fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol (PPE), gyda digon o gyflenwadau o'r cychwyn, a dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn hyderus y byddai cyflenwadau digonol ar gael wrth symud ymlaen.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal.

Dywedwyd wrthym fod cleifion a staff wedi bod yn cael y newyddion diweddaraf am COVID-19 yn rheolaidd a bod gwybodaeth ysgrifenedig am reoli COVID-19 bellach ar gael i'r staff, y cleifion ac i ymwelwyr. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19. Dywedwyd wrthym hefyd fod y mwyafrif o'r cleifion wedi dygymod â'r newidiadau'n gymharol dda, a'u bod yn fodlon cydymffurfio â'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod rhai newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Ers dechrau pandemig COVID-19, mae'r staff a'r ymwelwyr wedi bod yn defnyddio drysau gwahanol i'w gilydd i ddod i mewn i ward Adferiad. Ni all y staff na'r ymwelwyr

ddefnyddio drysau'r brif fynedfa mwyach. Mae PPE a gel hylendid dwylo bellach ar gael wrth myyl y mynedfeydd. Mae amserlenni glanhau wedi cael eu diwygio fel bod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach.

Dywedwyd wrthym nad oedd hawl gan neb ymweld â'r ward ar ddechrau'r pandemig, ond i hyn ailddechrau wedyn ar ôl i'r mesurau perthnasol gael eu rhoi ar waith, e.e. cadw pellter cymdeithasol, cofnodi manylion ymwelwyr er mwyn tracio ac olrhain, defnyddio PPE, golchi dwylo ac ati. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ymwelwyr wedi cael eu rhoi ar waith eto yn ddiweddar o ganlyniad i achosion COVID-19 yn yr ardal leol. Sicrhawyd bod ffonau a llechi ar gael er mwyn i'r cleifion gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Dywedwyd wrthym hefyd na allai'r cleifion adael y ward am gyfnod byr mwyach, ond roeddent yn parhau i adael y ward os oedd angen paratoi i'w rhyddhau.

Dywedwyd wrthym nad yw triniaeth glinigol y cleifion na'r camau ymyrryd a gymerir mewn perthynas â nhw wedi newid yn sylweddol yn ystod y pandemig. Mae cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau ac mae'r holl adolygiadau a drefnwyd o dan Ddeddf Lechyd Meddwl 1983 wedi cael eu cynnal o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Cafodd cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu gohirio ar ddechrau'r pandemig, gan ddefnyddio ffonau a galwadau fideo i sicrhau bod y cleifion yn parhau i allu cael gafaél ar wasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli. Mae rhai ymweliadau wyneb yn wyneb wedi ailddechrau yn ddiweddar gan gydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol.

O'r dogfennau a gyflwynwyd, a'n trafodaethau â rheolwr y ward, cawsom sicrwydd y byddai unrhyw aelod o'r staff a oedd yn cael diagnosis COVID-19 yn cael ei reoli'n briodol.

Gwelsom gofnodion o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau o atal yn gorfforol ar gyfer mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi 2020. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu natur y digwyddiadau a'r camau a gymerwyd. Esboniodd rheolwr y ward nad oedd y digwyddiadau yn uniongyrchol gysylltiedig â'r newidiadau i'r trefniadau ar y ward o ganlyniad i COVID-19, ond roeddent yn adlewyrchu anghenion gofal cyffredinol y grŵp cleifion.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg amgylcheddol rheolaidd yn cael eu cynnal, a rhoddwyd copiâu o asesiadau risg wedi'u cwblhau inni ar gyfer mis Gorffennaf, mis Awst, mis Medi a mis Hydref 2020, a gadarnhaodd fod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol ar y ward.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cynnwys pedwar cilfan â phedwar gwely yr un a chwe ystafell sengl. Nid oes gan yr ystafelloedd sengl gyfleusterau en-suite. O ganlyniad i hyn, mae cynllun y ward wedi peri heriau ychwanegol o ran rheoli COVID-19, yn arbennig mewn perthynas â'r defnydd o'r cawodydd a'r toiledau a rennir, a'r ffaith nad oes digon o le i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol. Nid oes digon o le addas ar y ward chwaith pe bai angen ynysu unrhyw glaf. Pe bai claf yn cael canlyniad prawf COVID-19 positif, byddai'n cael

ei symud i'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys i gael ei ynysu. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfleusterau ar y ward yn addas i ddiwallu anghenion cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod asesiad risg o ran pwyntiau clymu wedi cael ei gynnal ar y ward, a oedd wedi tynnu sylw at nifer o feysydd yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Fodd bynnag, yr unig fesur a roddwyd ar waith i leihau'r risg i'r cleifion oedd sicrhau mwy o arsylwadau. Er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion ymhellach, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r asesiad risg o ran pwyntiau clymu a chynnal y gwaith unioni a nodwyd.

Dywedwyd wrthym nad oedd modd defnyddio Wi-Fi ar y ward, a oedd yn ei gwneud yn anodd i'r cleifion gyfathrebu â'u ffrindiau a'u perthnasau gan ddefnyddio llechi. Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai darparu Wi-Fi ar y ward.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod polisiau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r rhain wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19. Caiff polisiau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Cawsom wybod bod y cleifion, y perthnasau a'r staff yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd a oedd yn cynnwys pob un o reolwyr y ward a'r Uwch-nyrs er mwyn trafod unrhyw broblemau neu bryderon sy'n gysylltiedig â rheoli heintiau a mynd i'r afael â nhw.

Cwblheir archwiliadau rheoli heintiau misol ar y ward, ac roedd yr archwiliad mwyaf diweddar yn dangos lefelau cydymffurfio da. Dywedwyd wrthym fod y nyrs arwain ar gyfer rheoli heintiau wedi ymweld â'r ward yn ddiweddar i gynnig arweiniad a chyngor.

Dywedwyd wrthym fod systemau a gweithdrefnau ar waith i nodi unrhyw aelod o'r staff neu glaf a allai fod mewn perygl o ddatblygu COVID-19, neu a oedd yn dangos symptomau COVID-19. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff ac, yn dibynnu ar y lefel o risg, y bydd y sefydliad yn penderfynu a oes angen i'r aelod o staff hunanyysu.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan ei reolwr llinell a bod y cyfathrebu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd yn dda.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod lefelau salwch y staff wedi bod yn gymharol isel dros y tri mis diwethaf. Roedd y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd yn adlewyrchu hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod cyfanswm o chwe swydd wag cyfwerth ag amser llawn ar y ward. Roedd tair o'r swyddi yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd, roedd dau unigolyn wedi cael eu penodi ond roeddent yn aros am eu dyddiad dechrau, ac roedd un unigolyn wedi dechrau gweithio ar fand is nes iddo gwblhau ei gofrestrriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. O ganlyniad i'r swyddi gwag, roedd staff asiantaeth a staff banc wedi cael eu defnyddio rywfaint, ond gwneir hyn cyn lleied â phosibl.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod gan bob aelod o'r staff fynediad at gymorth iechyd galwedigaethol sy'n cynnwys cwnsela.

Gall y gwasanaeth ofalu am hyd at 22 o gleifion. Dywedwyd wrthym fod lefelau dibyniaeth y cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a bod staff ychwanegol yn cael eu cynnwys ar y rota os byddai mwy o alw ac nid oedd unrhyw broblemau o ran cael gafael ar fwy o staff.

Nodwyd bod hyfforddiant staff yn parhau, gyda'r defnydd o gyfleusterau mewnol ac e-ddysgu. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio yn anffurfiol, a hynny o ddydd i ddydd. Darperir cymorth mwy ffurfiol sydd wedi'i ddogfennu i'r staff drwy'r broses arfarnu flynyddol.

Parhawyd i gynnal adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac i fod mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, gan gynnwys cymorth eirioli, drwy alwadau ffôn a fideo-gynadledda. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn ymatebol i lacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil COVID-19 drwy adolygu asesiadau risg, a chaniatáu mwy o ymweliadau â'r safle.

Cafodd trefniadau a oedd yn galluogi i gleifion adael yr ysbyty am ddiwrnod eu hatal er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Lle y bo'n briodol, caiff absenoldeb tymor hir ei reoli fesul achos unigol, er enghraifft, os caiff claf ei gadw ar y ward o dan Adran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'n gofyn am fod yn absennol gyda'r nod o gael ei ryddhau, yna mae'n debygol y

byddai hyn yn cael ei ganiatáu. Os byddai angen i glaf sydd wedi cael gadael yr ysbyty am gyfnod hir ddychwelyd i'r ysbyty, byddai'n cael ei swabio ar ôl dychwelyd, ei sgrinio'n glinigol ar gyfer COVID-19 a'i annog i ynysu, gwisgo masg, cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr a golchi/diheintio ei ddwylo'n aml yn unol â'r weithdrefn. Pe bai unigolyn sy'n dychwelyd wedi cael canlyniad positif, yn dangos symptomau COVID-19 neu'n methu ag ynysu o ganlyniad i aciwtedd/galluedd, byddai'n cael ei drosglwyddo i'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys ar unwaith er mwyn cael ei ynysu'n ddiogel.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod y nifer o nyrsys dan hyfforddiant ac aelodau o staff nyrsio sydd newydd gymhwyso sy'n gweithio ar y ward yn rhoi pwysau ychwanegol ar reolwr y ward, ei ddirprwy a'r aelodau mwy profiadol eraill o'r staff nyrsio o ganlyniad i'r cymorth a'r oruchwyliaeth ychwanegol sydd eu hangen ar yr aelodau hyn o'r staff. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymysgedd da o ran sgiliau'r staff ar y ward er mwyn darparu gofal o ansawdd yn effeithiol i'r cleifion, y mae gan nifer ohonynt anghenion cymhleth iawn.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno proses recriwtio wedi'i symleiddio er mwyn sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar y ward. Fodd bynnag, nid yw rheolwr y ward yn cael ei gynnwys yn y broses hon bob amser. Mae hyn wedi arwain at benodi rhai aelodau o'r staff i weithio ar y ward nad ydynt yn hollol gymwys i natur cymhleth a heriol y gwasanaeth.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Sant Cadog

Ward: Adferiad

Dyddiad y gweithgarwch: 07 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfleusterau ar ward Adferiad yn addas i ddiwallu anghenion y cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif.	Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau	<p>Defnyddir y Canllawiau ar gyfer rheoli achosion posibl o COVID-19 ac achosion a gadarnhawyd ar Unedau i Gleifion Mewnol ar ward Adferiad, sy'n nodi y caiff y claf ei symud i'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys (PICU) yn y lle cyntaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol ar Adferiad a'r ffaith nad oes ystafelloedd sengl â chyfleusterau ensuite ar gael.</p> <p>Mae opsiynau ar gyfer cynlluniau tymor hwy i foderneiddio'r llety presennol wedi cael eu datblygu ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n eu hystyried, i'w rhoi ar waith yn unol â Strategaeth Ystadau ehangach y Bwrdd Iechyd.</p>	Nyrs Ranbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Cwblhawyd
2	Er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion ymhellach, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r asesiad risg o ran pwyntiau clymu a chynnal y gwaith unioni a nodwyd.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<p>Cafodd yr Asesiad Risg o ran Pwyntiau Clymu ar gyfer Ward Adferiad ei ddiweddarau ddiwethaf ym mis Mai 2020 yn dilyn y cylch asesu risg blynyddol a gynhaliwyd ar 28/05/2020. Nodwyd gwaith y mae angen ei wneud o'r asesiad hwn, ac mae Adran Gwaith ac Ystadau'r Bwrdd Iechyd wrthi'n pennu costau'r gwaith hwn, gyda'r nod o'i gwblhau gan ddefnyddio cyllid cyfalaf dynodedig 2020/21.</p> <p>Mae hyn yn rhan o strategaeth barhaus i leihau'r risgiau o ran pwyntiau clymu mewn amgylcheddau wardiau. Mae dros £3 miliwn eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer hyn.</p>	Rheolwr Cyffredinol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	I'w gwblhau cyn 31 Mawrth 2021.
3	Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Mae'r Is-adran wedi uwchgyfeirio'r mater o sicrhau bod Wi-fi ar gael, a chafodd y mater ei gymeradwyo yn y Rhaglen Gyfalaf eleni.	Pennaeth TGCh	I'w gwblhau cyn 31 Mawrth

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	darparu Wi-Fi ar y ward.		Cafwyd cadarnhad y caiff rhwydwaith a system Wi-fi newydd eu gosod ar safle Ysbyty Sant Cadog.		2021.
4	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymysgedd da o ran sgiliau'r staff ar y ward er mwyn darparu gofal o ansawdd yn effeithiol i'r cleifion, y mae gan nifer ohonynt anghenion cymhleth iawn.	Safon 7.1 Y Gweithlu	Mae'r Is-adran yn symud tuag at ddefnyddio rotas sy'n gyson â'r egwyddorion yn y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)/y Ffrwd Waith Genedlaethol ar gyfer Lefelau Staff Nyrsio Iechyd Meddwl a'r cyflenwadau staff y cytunwyd arnynt.	Nyrs Arwain ar gyfer Iechyd Meddwl i Oedolion	Cwblhawyd
			Yn y cyfamser, os bydd unrhyw bryderon ynghylch y cymysgedd o sgiliau ar y ward, dylid uwchgyfeirio hyn i'r Uwch-nyrs a Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth.		Cwblhawyd
			Mae cynllun peilot a oedd yn talu am uwch-staff nyrsio y tu allan i oriau i reoli'r broses o dderbyn cleifion o dan adran 136 a chefnogi staff nyrsio ar y safle y tu allan i oriau wedi bod yn llwyddiannus iawn, a gwnaed y swyddi'n rhai parhaol. Mae hyn wedi gwella'r cymysgedd o sgiliau y tu allan i oriau.		Cwblhawyd
			Bydd Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth yn adolygu'r mewnbwn amlddisgyblaethol i'r ward.		Rhagfyr 2020
			Bydd Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i drafod swyddi gwag yn rheolaidd yn y cyfarfod Is-adrannol ar Swyddi Gwag.		Cwblhawyd
5	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff rheolwr y ward ei gynnwys yn y broses wedi'i symleiddio ar gyfer recriwtio staff.	Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Cynllun cenedlaethol yw'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrrwyr a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, gyda'r nod o annog nyrsys dan hyfforddiant sydd wedi cael bwrsari ac wedi hyfforddi yng Nghymru i fynd ymlaen i weithio yn GIG Cymru.</p> <p>Mae Rheolwyr y Wardiau yn hysbysu'r Gyfarwyddiaeth am eu swyddi gwag yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff nifer o swyddi eu hysbysebu fel rhan o'r broses Symleiddio ar sail swyddi gwag a'r</p>	Nyrs Ranbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Cwblhawyd

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>cyflenwad staff.</p> <p>Bydd y Gyfarwyddiaeth yn parhau i roi gwybod am unrhyw gyfyngiadau posibl sy'n deillio o'r broses Cymru Gyfan bresennol fel y gellir eu rhannu â'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>Bydd y Gyfarwyddiaeth yn parhau i annog Rheolwyr y Wardiau i fynd i wahanol Ddigiwyddiadau Recriwtio a pharhau i recriwtio staff y tu allan i'r broses Symleiddio.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Michelle Forkings, Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio/ Nyrs Ranbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 27 Hydref 2020